**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 200[ ] Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008

*Wedi'i wneud - - - -* ***

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2008

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn ei Chyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**) mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ac wedi'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, drwy ei Chyfrin Gyngor a chydau'u cyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 7) 2008 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

### Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**2.**—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ym Maes 11 (tai) mewnosoder—

---

(**a**) 2006 (p.32)

*“Matter 11.1*

Provision for and in connection with a requirement that a sprinkler system be installed in new residential premises.

*Interpretation of this Matter*

“New residential premises” means –
(a) premises constructed for residential use;
(b) premises converted to residential use;
(c) premises converted to use as a single residence by physical subdivision of one or more existing residential premises; and
(d) premises converted to use as a single residence by physical incorporation of more than one existing residential premises.

A “sprinkler system” means any automatic fixed system intended to extinguish control or contain fires by means of water propelled under pressure through pipework and spray heads which operate when a predetermined temperature is reached.”.

Clerc y Cyfrin Gyngor

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae Erthygl 2 yn mewnosod mater 11.1 newydd ym Maes 11. Mae’r mater newydd sy’n cael ei fewnosod yn ymwneud â galluogi gofyniad i gael ei orfodi, bod rhaid i system daenellu gael ei gosod mewn mangreoedd preswyl newydd (gan gynnwys mangreoedd preswyl a gaiff eu creu drwy fynd ati’n ffisegol i isrannu mangreoedd presennol neu i’w hymgorffori). Bydd unrhyw ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad sy’n ymwneud â’r mater 11.1 newydd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd y mater hwn ac adran 94(4) o Ddeddf 2006.